# CYFARFOD PWYLLGOR DEDDFWRIAETH

## COFNODION (LEG(2)-06-2006):

### Dyddiad y Cyfarfod: 14 Chwefror 2006

### Amser y Cyfarfod : 9:30 a.m.

### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

### Aelodau'r Cynulliad oedd yn Bresennol:

| **Aelod y Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| David Melding (Cadeirydd) | Canol De Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Brynle Williams | Gogledd Cymru |

### Swyddogion

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

### Y Gwasanaeth Pwyllgorau

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc Pwyllgor |
| Richard Miltiadis | Dirprwy Glerc Pwyllgor |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb: Janice Gregory, Eleanor Burnham

## Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol – LEG(2)-05-2006

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2006.

## Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Gan nad oedd unrhyw bwyntiau i'w nodi awgrymodd y Cadeirydd eu bod yn symud ar unwaith i drafod deddfwriaethau.

## Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad sydd i'w Hystyried

### 4.1 LC1218 – The General Dental Services and Personal Dental Services Transitional Provisions (Wales) Order 2006

### LC1219 – Functions of Local Health Boards (Dental Public Health) (Wales) Regulations 2006

### LC1224 – The National Health Service (General Dental Services Contracts) (Wales) Regulations 2006

### LC1225 – The National Health Service (Personal Dental Services Agreements) (Wales) Regulations 2006

### LC1226 – The National Health Service (Dental Charges) (Wales) Regulations 2006

(Gwnaed y Rheoliadau uchod oll yn Saesneg yn unig). Cyflwynodd Ms Jackson yr adroddiadau i'r Pwyllgor.

4.2 Nododd yr Aelodau nad oedd unrhyw fersiynau Cymraeg o'r Offerynnau Statudol ac yr oeddent o'r farn, er gwaethaf cyfyngiadau amser a chymhlethdodau y dylai pob deddfwriaeth gael ei chynhyrchu yn ddwyieithog. Holwyd a oedd hyn oherwydd prinder staff. Rhoddodd Mr Griffiths wybod i'r Pwyllgor

mai’r prif rwystr i gynhyrchu Offerynnau Statudol yn ddwyieithog oedd methiant gan y rhai sy’n gysylltiedig â thrafodaethau ar lefel Cymru a Lloegr i roi digon o ystyriaeth i’r amser a gymer i wneud deddfwriaeth ddwyieithog. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog i fynegi ei bryderon ac i edrych ar y mater hwn yn yr adolygiad sydd i ddigwydd yn fuan. Gweithredu: Cadeirydd/ Cynghorwyr Cyfreithiol/ Clerc.

4.3 Cytunodd yr aelodau y dylai’r adroddiadau gael eu gwneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i’r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

## 4.4 LC1220 – Rheoliadau Pontio rhwng Ysgol Gynradd a Ysgol Uwchradd (Cymru) 2006

Cyflwynodd Ms Jackson yr adroddiad i’r Pwyllgor. Hysbyswyd yr Aelodau y dylent gyfnewid yr adroddiad a gyflwynwyd gyda’r fersiwn diwygiedig.

4.5 Cytunodd yr Aelodau y dylai’r adroddiadau gael eu gwneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i’r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

## 4.6 LC1223 – Gofyniad am lunio Cynlluniau Pontio ac Arweiniad

Cyflwynodd Ms Jackson yr adroddiad i’r Pwyllgor. Gwnaethpwyd yr Offeryn Statudol trwy Reol Sefydlog 29 dan adran 198 y Ddeddf Addysg 2002.

4.7 Cytunodd yr aelodau y dylai’r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i’r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

## 4.8 LC1221 – Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2006

Cyflwynodd Ms Jackson yr adroddiad i’r Pwyllgor.

4.9 Cytunodd yr aelodau y dylai’r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i’r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

## 4.10 LC1222 – Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2006

Cyflwynodd Mr Griffiths yr adroddiad i’r Pwyllgor.

4.11 Cytunodd aelodau y dylai’r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i’r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

## 4.12 LC1227 – Rheoliadau Llywodraethu Corfforaethau Addysg Bellach (Dirymu) (Cymru) 2006

Cyflwynodd Mr Griffiths yr adroddiad i'r Pwyllgor.

4.13 Cytunodd yr aelodau y dylai'r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

### 4.14 LC1228 – Gorchymyn Corfforaethau Addysg Bellach (Disodli Offerynnau Llywodraethu ac Erthyglau Llywodraethu) (Cymru) 2006

Cyflwynodd Mr Griffiths yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd yr Offeryn Statudol trwy Reol Sefydlog 29 dan adran 198 y Ddeddf Addysg 2002.

4.15 Gofynnodd yr aelodau am eglurhad, a fyddai gan y Cadeirydd ail bleidlais yn unig, neu ail bleidlais a phleidlais fwrw dan yr Offeryn Statudol hwn . Holodd aelodau hefyd a oedd yr Offeryn Statudol yn caniatáu gwahardd staff pan fo achos da neu achos brys, neu pan fo achos da ac achos brys. Gofynnodd Aelodau hefyd pam fod yn rhaid i Gyfansoddiad Undeb Myfyrwyr fynd i'r Gorfforaeth i gael ei dderbyn.

4.16 Mewn perthynas â'r mater ynglyn â phleidlais y Cadeirydd a'r mater yn ymwneud â gwahardd, dywedodd Mr Griffiths wrth y Pwyllgor ei fod yn ansicr pa un oedd yn gywir ac y byddai'n dychwelyd i'r Pwyllgor gyda'r sicrwydd hwnnw. Gyda golwg ar y pwynt olaf hysbysodd Mr Griffiths y Pwyllgor fod hwn yn fater polisi ac felly nid yn fater i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Deddfwriaeth. Argymhellodd Mr Griffiths ein bod yn tynnu'r paragraff perthnasol allan o'r adroddiad.

4.17 Awgrymodd yr Aelodau wedyn y dylid cyfeirio'r Offeryn Statudol i'r Pwyllgor Addysg ac y dylid ymgynghori gydag Undebau'r Myfyrwyr.

4.18 Rhoddodd Mr Griffiths wybod i'r Pwyllgor ei bod yn rhy hwyr i gyfeirio'r Offeryn Statudol i'r Pwyllgor Addysg neu i ymgynghori ag Undebau'r Myfyrwyr ac y gellid dim ond ei gyfeirio i'r Cyfarfod Llawn bellach. Cynigiodd Mr Griffiths ein bod yn ysgrifennu at y Pwyllgor Addysg. Cytunodd yr Aelodau. Gweithredu: Cadeirydd/ Cynghorwyr Cyfreithiol /Clerc

4.19 Cytunodd yr Aelodau y dylai'r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

## Eitem 5: Trafodaeth: Craffu ar Ddeddfwriaeth yn Dilyn Etholiadau 2007 i'r Cynulliad Cenedlaethol

5.1 Trafododd yr Aelodau'r papur a baratowyd gan Mr Griffiths a chytuno i wneud adolygiad o rôl a chyfrifoldeb y Pwyllgor Deddfwriaeth yn dilyn etholiadau 2007 i'r Cynulliad Cenedlaethol. Cytunodd yr Aelodau ar y cynigion yn y papur a'r meysydd gorchwyl o'i fewn.

5.2 Awgrymodd y Cadeirydd eu bod yn ymgynghori gydag awdurdodaethau eraill trwy gysylltiadau fideo byw a/neu trwy gwestiynau ysgrifenedig. Hefyd cynigiodd gynnwys arbenigwyr o'r tu allan megis yr Athro Richard Rawlings o'r London School of Economics. Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor y byddai'n rhaid i'r ymgynghoriad hwn gael ei wneud dros gyfnod byr o amser. Pwysleisiodd yr aelodau y byddai'n arbennig o ddefnyddiol a phwysig i edrych ar Senedd yr Alban am gyfarwyddyd ar eu harferion da. Awgrymwyd hefyd y byddai'r ymgynghoriad yn cael ei gyflwyno'n well ar ffurf trafodaethau wyneb yn wyneb. Tynnodd y Cadeirydd sylw at yr anawsterau a fyddai'n deillio o geisio trefnu i'r pwyllgor cyfan ymweld ag awdurdodaethau eraill ond nododd efallai y byddai'n bosibl i rai aelodau ymweld. Nodwyd hefyd efallai y byddai'n werthfawr edrych sut mae'r Senedd yn Iwerddon yn ymdrin â deddfwriaethau dwyieithog. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ystyried a fyddai edrych ar ddeddfwriaeth Ewropeaidd yn bosibilrwydd ar ôl 2007. Penderfynwyd ceisio barn y Pwyllgor Ewropeaidd ar y pwnc. Gofynnwyd i'r Cadeirydd / Clerc / Cynghorwyr Cyfreithiol i wneud y trefniadau ymarferol.

Gweithredu: Cadeirydd/ Cynghorwyr Cyfreithiol / Clerc

### Camau Gweithredu

4.2 Gofynnwyd i'r Cadeirydd ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i fynegi ei bryderon gyda golwg ar y methiant i gyhoeddi deddfwriaeth yn ddwyieithog.

Gweithredu: Cadeirydd/ Cynghorwyr Cyfreithiol/ Clerc

4.18 Gofynnwyd i'r Cadeirydd ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Addysg i dynnu ei sylw i fater Cyfansoddiadau Undebau Myfyrwyr. Gweithredu: Cadeirydd/ Cynghorwyr Cyfreithiol / Clerc.

5.1 Gofynnwyd i'r Cadeirydd / Clerc / Cynghorwyr Cyfreithiol wneud trefniadau ymarferol ar yr Adolygiad ar graffu deddfwriaethau a rôl / cyfrifoldeb y Pwyllgor Deddfwriaeth yn dilyn etholiadau 2007 i'r Cynulliad Cenedlaethol. Gweithredu: Cadeirydd/ Cynghorwyr Cyfreithiol/ Clerc

## Eitem 6: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

6.1 Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal 28 Chwefror 2006 (yn y Senedd mae'n debyg).